**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
**CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE**

PWNC/SUBJECT: Gwasanaeth Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau - Adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer seremoniau priodas am ffi o £46.

*Registration of Births, Deaths and Marriages Service - Review of provision for marriage ceremonies for a £46 fee.*

AELOD CABINET / CABINET MEMBER: Y Cynghorydd / Councillor Ioan C Thomas

## PENDERFYNIAD / DECISION

Addasu'r cyfnodau amser ar gyfer cynnal seremonïau priodas a phartneriaethau sifil elfennol am ffi o £46. Cynnal y seremonïau yn Swyddfa'r Cadeirydd yng Nghaernarfon a Stafell Briodas Pwllheli rhwng 9:00am a 12:00pm ar ddyddiau Mawrth ac yn Stafell Briodas Dolgellau ar ddyddiau Mercher yn unig.

*Revise the time spans for conducting basic marriage ceremonies and civil partnerships for a fee of £46. Only conduct the ceremonies in the Chairman's Office in Caernarfon and the Marriage Room in Pwllheli between 9:00am a 12:00pm on Tuesdays and in the Marriage Room, Dolgellau on Wednesdays.*

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASONS FOR THE DECISION

Mae'n ofyniad statudol ar bob Cyngor i ddarparu seremonïau priodas a phartneriaethau sifil elfennol mewn Swyddfa Gofrestru am ffi o £46. Nid yw Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol yn diffinio'n union ar ba adegau'r wythnos nag ar ba amseroedd mae'n rhaid cynnig y ddarpariaeth ond mae o'r farn bod darpariaeth bresennol Cyngor Gwynedd yn fwy nag sydd angen ei gynnig.

*It is a statutory requirement for every Council to offer basic marriage and civil partnership ceremonies in a Register Office for a fee of £46. The General Registrar's Office does not prescribe exactly when or at which times during the week the provision must be offered but it's of the view that Gwynedd Council's current provision exceeds the level of service that has to be offered.*

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL / RELEVANT CONSIDERATIONS

1. Dros gyfnod o ddeuddeg mis o Awst 2014 tan Orffennaf 2015 cynhaliwyd 83 seremoni priodas yng Ngwynedd am ffi o £46. Ym 25 o'r priodasau, roedd y ddau aelod o'r cyplau yn drigolion o du allan i Wynedd.
2. Nid yw'r ffi o £46 am y seremonïau'n cyfarfod a'r gost ac mae eu cynnal a chyflawni'r gwaith gweinyddol ar eu cyfer yn creu colled ariannol flynyddol o dros £8000 i'r Cyngor heb gynnwys unrhyw gostau gorbenion.
3. Mae'r seremonïau am ffi o £46 a ddarperir gan rai Cynghorau yn Lloegr yn llawer mwy cyfyng na darpariaeth Cyngor Gwynedd:
    - slotiau o ddydd Llun i ddydd Iau hyd at 11:00am a gynigir gan Gyngor Dinas Lerpwl
    - cynigir slot am 10:00am neu 10:30am o ddydd Llun i ddydd Gwener gan Gyngor Kent
    - rhoir dewis i gynnal seremoni am 9:10am neu 9:50am ar ddyddiau Llun, Mawrth ac Iau gan Gyngor Dinas Manceinion. Seremoni safonol yn unig a ddarperir a chaniateir y cwpl a dau dyst yn unig i fod yn bresennol. Ni chaniateir unrhyw wahoddedigion eraill.
4. Mae Cyngor Sir Fflint yn darparu slotiau am 11.30am a 12.30pm ar ddyddiau Llun, Mawrth a Mercher ac am 12.00pm ar ddydd Iau. Mae'r ddarpariaeth yn ddigonol i gynnal hyd at 7 seremoni bob wythnos ond cyfanswm o 31 seremoni a gynhaliwyd yn 2014/15 a 22 seremoni hyd yn hyn eleni. Caniateir uchafswm o 6 gwestai yn y seremonïau.
5. Bydd darparu cyfleusterau ar gyfer seremonïau priodas yn Swyddfa'r Cadeirydd yng Nghaernarfon a Stafell Briodas Pwllheli rhwng 9:00am a 12:00pm ar ddyddiau Mawrth ac yn Stafell Briodas Dolgellau ar ddyddiau Mercher yn ddigonol i gyfarch y galw am seremonïau priodas elfenol am ffi

o £46, yn hwyluso'r trefniadau staffio ac yn lleihau'r golled ariannol flynyddol yn sylweddol. Mae'r ffi uwch ar gyfer seremonïau priodas a phartneriaethau sifil tu allan i'r amseroedd hyn yn adlewyrchu natur y seremoni a'r elfenau ychwanegol sy'n cael ei gynnig. Ystyrir fod y ddarpariaeth a gynnigir yma yn ddigonnol i gyfarch yr angen ar gyfer seremoniau elfenol.

1 *Over a period of 12 months from August 2014 until July 2015, 83 marriage ceremonies were conducted for a £46 fee. In 25 of the marriages, both members of the couples were residents from outside Gwynedd.*

2 *The cost of the ceremony is not covered by the fee of £46 and conducting them incurs an annual loss in excess of £8000 for the Council before taking into account any on costs.*

3 *The ceremonies for a fee of £46 provided by some Councils in England are considerably less generous than Gwynedd's provision:*

- *slots from Monday to Thursday until 11:00am are offered by Liverpool City Council*
- *a slot at either 10:00am or 10:30am from Monday to Thursday is offered by Kent County Council*
- *a choice of holding a ceremony at 9:10am or 9:50am on Monday, Tuesday and Thursday is offered by Manchester City Council. Only a standard ceremony is offered with only the couple and two witnesses allowed to be present. No other guests are allowed.*

4 *Flintshire County Council provides slots at 11:30am and 12:30pm on Mondays, Tuesdays and Wednesdays and at 12:00pm on Thursdays. The provision is adequate for holding up to 7 ceremonies each week but the total number of ceremonies held in 2014/15 was 31 with 22 ceremonies held to date this year. A maximum of 6 guests are allowed in the ceremonies.*

5 *Providing facilities for marriage ceremonies in the Chairman's Office in Caernarfon and the Marriage Room in Pwllheli between 9:00am a 12:00pm on Tuesdays and in the Marriage Room Dolgellau on Wednesdays will be adequate to meet the demand for a basic marriage ceremony for a £46 fee, will assist with the staffing arrangements and will substantially reduce the annual financial loss. The higher fee for marriage and civil partnership ceremonies outside of these times reflect the nature of the ceremony and the additional elements on offer. It is considered that the provision proposed is sufficient to address the need for such ceremonies.*

---

## .BARN Y SWYDDOGION STATUDOL VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

Mae'r cynigion sydd yma yn ymddangos yn rhesymol yng nhyd-destun adfer costau sydd ynghlwm â darparu seremonïau o'r fath.

*These proposals appear to be reasonable within the context of recovering costs that are associated with providing these ceremonies.*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

Mae'r penderfyniad a geisir yn un priodol ac yn cyfarch y gofynnion statudol ynglyn a ffioedd priodasau.

*The decision sought is appropriate and addresses the statutory requirements regarding marriage fees*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Credaf fod y drefn argymhellir yma yn synhwyrol ac yn dilyn ystyriaeth briodol.

*I believe that the arrangement outlined here is sensible and follows appropriate consideration.*

---

## BARN YR AELOD LLEOL VIEW OF LOCAL MEMBER

Dim yn fater aelod lleol / *Not a matter for a local member*

---

LLOFNOD / SIGNED

DYDDIAD/DATE

23/11/15